# PYOG

**Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru**
**Wales Principal Youth Officers' Group**

## Atal troseddu ymhlith pobl ifanc Cymru – rôl gwaith ieuenctid

Mae nifer y bobl ifanc yn y Deyrnas Gyfunol a Chymru sy'n troseddu wedi gostwng yn fawr yn ddiweddar.  Dyma duedd addawol mae rhaid ei chynnal trwy gyfraniad amrywiaeth helaeth o ddylanwadau.  Er bod y gwasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc[1] yn haeddu clod am ymgysylltu â phobl ifanc sy'n ymwneud â'r llysoedd, mae llawer o waith difyrru a chymorth ataliol ehangach ymhlith pobl ifanc allai fod ar fin troseddu yn mynd rhagddo trwy waith ieuenctid yn gyffredinol – yn arbennig trwy wasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol.

Mae'r gwasanaethau hynny'n ymwneud â thros 100,000 o bobl ifanc y flwyddyn am 12 awr bob dydd (50 wythnos) gan weithio mewn amrywiaeth helaeth o sefyllfaoedd i gadw pobl ifanc rhag cydio mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol.

Er nad yw nod gwaith ieuenctid yn wahanol i un addysg ffurfiol (ysgolion, colegau ac ati) sef datblygu cymunedau bodlon a gwybodus, mae'r ffordd o weithredu (addysgu anffurfiol) yn wahanol.  Mae addysgwyr anffurfiol, gwirfoddol a chymunedol eu natur, wrth wraidd cymdeithas ddemocrataidd.  Yn ôl Sefydliad y Cydweithredu a'r Datblygu Economaidd, rhaid cydnabod bod addysg anffurfiol yn ffordd o wireddu'r delfryd y gall pawb ddysgu drwy gydol ei einioes gan adlunio dysgu fel y bydd yn diwallu anghenion economïau gwybodaeth a chymdeithasau agored yr 21ain ganrif: http://www.oecd.org/edu/skills-beyond-school/recognitionofnon-formalandinformallearning-home.htm

Mae dysgu anffurfiol, heb ei drefnu, yn digwydd ym mywyd pawb bob dydd pan fo'n ymwneud â gweithgareddau beunyddiol, sgyrsiau a dulliau cyfathrebu eraill.  Dyma'r unig ffordd y gall rhai pobl ifanc gael eu haddysgu weithiau tra bo'n anodd mynychu addysg ffurfiol.  Mae'n well gan eraill ddysgu trwy 'ysgol profiad', fodd bynnag.

[1]Mae timau neu wasanaethau ar gyfer troseddwyr ifanc yn garfanau amlochrog a gydlynir gan yr awdurdodau lleol.  Felly, er y byddan nhw'n cydweithio'n agos â'r heddluoedd a'r llysoedd, ac yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Bwrdd Cyfiawnder yr Ifainc, maen nhw'n perthyn i drefn ar wahân yn ôl Adran 39 Deddf Troseddu ac Anhrefn 1998 sy'n datgan mai awdurdod lleol, heddlu, gwasanaeth prawf a bwrdd iechyd yr ardal fydd y partneriaid statudol.

**Pobl ifanc – asedion i'n cymdeithas ni**

Er bod mwy a mwy o'r asiantaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc yn cydnabod mai meithrin perthynas â phobl ifanc yn ôl nodweddion/anghenion unigol yw'r ystyriaeth gyntaf (er enghraifft, mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru 2013 yn dweud bod rhaid trin a thrafod pobl ifanc fel plant yn gyntaf ac fel troseddwyr yn ail), mae gwaith ieuenctid wedi gwneud hynny o'r dechrau. Mae lle i ddadlau y gallai fod yn symlach i weithwyr ieuenctid am fod pobl ifanc yn meithrin perthynas â nhw o'u gwirfodd mewn amgylchiadau llai ffurfiol, ond mae'r egwyddor yn berthnasol i bob sefyllfa. Gall dull o'r fath osod sylfaen perthynas fuddiol, yn aml.

Mae'r farn bod pobl ifanc yn broblem yn parhau i ddylanwadu ar drafodaethau ynglŷn â pholisïau yn y Deyrnas Gyfunol, gan gyfnerthu tuedd i'w gyrru i'r cyrion ac ystyried rhai carfanau'n ddi-werth. Yr ymateb i'w hymddygiad, yn aml, fydd ceisio eu rheoli'n dynnach ar y naill law ac, ar y llaw arall, neilltuo adnoddau a gweithgareddau ar gyfer y rhai yr ystyrir eu bod yn anghenus. Er bod pawb yn deall y bydd prinder adnoddau yn arwain at eu blaenoriaethu er lles y rhai mwyaf difreintiedig, **mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi gwasanaethau ieuenctid am nad oes nod cywilydd iddynt ac y gallen nhw fod mor effeithiol â gwasanaethau penodol**.[2] Yn aml, bydd pobl ifanc yn symud rhwng y ddau. **Mae gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu'n bersonol ac yn gymdeithasol trwy raglenni a gweithgareddau i bawb rhwng 11-25 beth bynnag fo'i gefndir a'i allu**. Mae'r cyfleoedd hynny'n galluogi pobl ifanc i gwrdd â chyfoedion o sawl cefndir, diddordeb a dyhead a dysgu oddi wrth ei gilydd – proses ddysgu ynddi ei hun.

Mae'n ymddangos bod rhaid i bob cenhedlaeth wneud rhagor am fod mwy a mwy o angen i bobl ifanc ymaddasu'n gyflymach i ddatblygiadau cyfoes. Maen nhw'n dod i oed ynghynt gan fod llencyndod yn dechrau rai blynyddoedd ynghynt y dyddiau hyn ac mae'u plentyndod yn fyrrach o ganlyniad. Yn ogystal â bod o dan ddylanwad eu hamgylchiadau, fodd bynnag, mae modd iddyn nhw **ddylanwadu** ar amgylchiadau yn yr oes ddigidol, hefyd. Mae mwy o mwy o bobl hŷn yn y boblogaeth bellach, ac maen nhw'n dibynnu mwyfwy ar y cenedlaethau iau. Yng ngoleuni hynny, **dylen ni weld pobl ifanc yn gaffaeliad i bob cymuned a dylai polisïau cymdeithasol adlewyrchu hynny**.

**Beth yw gwaith ieuenctid?**

Er bod amryw ffyrdd cydnabyddedig o ymgysylltu â phobl ifanc trwy 'wasanaethau cynorthwyo'r ifainc', mae'r hyn sy'n mynd rhagddo yn ôl fframwaith gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau lleol ar gael i bawb rhwng 11 a 25 oed. Ei brif ddiben yw 'galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn modd cyfannol trwy gydweithio â nhw er eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol fel y gallan nhw feithrin eu llais, eu dylanwad a'u priod le yn ein cymdeithas ni a chyrraedd eu llawn dwf' (Safonau

[2] http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmeduc/744/74406.htm#a5

Galwedigaethol Gwladol Gwaith Ieuenctid). Mae gan waith ieuenctid ei safonau galwedigaethol gwladol ei hun yn ogystal â fframwaith cymwysterau. Mae wedi'i ddiffinio ymhellach yng Nghymru trwy *Egwyddorion a dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru* sy'n dweud y dylai fod o natur **addysgol**, **mynegol**, **cyfranogol**, **cynhwysol** a **grymusol**. Mae'n cynnig addysg trwy ddatblygu pobl yn bersonol ac yn gymdeithasol. O'u gwirfodd y bydd pobl ifanc yn ymwneud â'r gwaith fydd ar gael trwy ddulliau addysgu anffurfiol yn ystod cyfnod pontio rhwng plentyndod a bod yn oedolyn.

Mae gwaith ieuenctid yn mynd rhagddo mewn amryw sefyllfaoedd a thrwy amryw ddulliau gan feithrin amrywiaeth helaeth o fedrau personol a chymdeithasol fydd yn ategu llais, dylanwad a chyfraniad unigolyn yn ein cymdeithas. Dyma enghreifftiau o'r hyn sydd ar gael:

- Y celfyddydau, drama a materion diwylliannol
- Cymorth cyntaf
- Y chwaraeon a gweithgareddau corfforol
- Gwybodaeth, cynghorion ac arweiniad
- Gwasanaethau cwnsela
- Cyrsiau preswyl
- Clybiau ar ôl yr ysgol
- Dinasyddiaeth
- Gwaith prosiectau
- Gwobr Dug Caeredin
- Cynaladwyedd
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Rhaglenni'r cwrícwlwm amgen
- Iechyd a lles

O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd gofyn i weithwyr ieuenctid gofrestru i'w rheoleiddio trwy Gyngor Gweithlu Addysg fel y bydd iddyn nhw statws cyffelyb i rai athrawon, darlithwyr addysgu bellach ac ymarferwyr dysgu yn y gwaith.

**Atal, camu i mewn a difyrru – rôl gwasanaethau ieuenctid**

Er nad yw gwaith ieuenctid wedi'i ddatblygu er mwyn difyrru pobl ifanc fel na fyddan nhw'n ymgasglu ar y strydoedd, mae gwasanaethau ieuenctid yn cyflawni rôl ataliol bwysig yn aml, trwy helpu pobl ifanc i osgoi cyrraedd adeg dyngedfennol pan fydd angen cymorth y gwasanaethau cymdeithasol, adrannau tai, gwasanaethau iechyd y meddwl i blant a'r glasoed, heddluoedd ac ati. **Trwy gydweithio'n agos â phobl ifanc a'u helpu i ymdopi ag anawsterau a phrofiadau, fe fydd modd osgoi camau difrifol a chostus o'r fath, yn aml**.

Mae'n hysbys bod addysg a throseddu'n gysylltiedig. Mae gan hanner y rhai rhwng 15 a 17 oed sy'n mynd i sefydliadau troseddwyr ifanc fedrau llythrennedd a rhifedd plentyn 7-11 oed. Mae tua 40% o'r rhai mewn sefydliadau i droseddwyr o dan 18 oed heb fynychu'r ysgol ers 14 oed, ac mae bron naw o bob 10 wedi'u gwahardd o'r ysgol ar ryw adeg. Mae pedwar comisiynydd materion plismona a throseddu Cymru wedi pennu atal troseddu yn flaenoriaeth yn eu cynlluniau gweithredu. Un o'r prif ffyrdd o rwystro pobl rhag troseddu yw addysg.

I wella cyfleoedd i gryfhau iechyd y meddwl, mae angen sylfaen teimladol cadarn ar bobl ifanc – a hynny o ganlyniad i feithrin ymwybyddiaeth, cydymdeimlad, cadernid a hyder. Datblygir llawer o'r rhinweddau hynny pan fo pobl ifanc yn yr ysgol neu yn y coleg ond, yng ngoleuni'r ffaith y byddan nhw'n treulio tua **85% o'u hamser y tu allan i addysg ffurfiol** (Yr Athro Tim Brighouse, *Education without failure,* Royal Society of Arts Digital Journal, Hydref 2008), fe fydd sawl cyfle i wneud hynny yn y gymuned yn ystod eu hamser rhydd, hefyd.

Dysgir sawl 'cymhwysedd cymdeithasol' trwy weld, gwneud, profi a methu yn ogystal â llwyddo – y gallu i ymdopi â methu, dod yn ôl a dysgu trwy'r profiad (cadernid). Fe fydd gwaith ieuenctid yn rhoi cyfleoedd i'r rhai rhwng 11 a 25 oed feithrin agweddau ar eu bywydau dro ar ôl tro, gan eu helpu i ystyried a gwerthuso eu profiad. Ar ben hynny, bydd yn cynnig rhaglenni dysgu gwahanol (ond cyflenwol) mewn awyrgylch cefnogol – ffordd amgen o alluogi pobl ifanc i ddysgu a chyflawni eu llawn dwf.

Mae llawer o'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ieuenctid wedi cefnu yn barod ar wasanaethau'r brif ffrwd, fodd bynnag, ac maen nhw'n agored i niwed o ganlyniad. Mae rhai o dan ofal gwasanaethau iechyd y meddwl i blant a'r glasoed neu adran y gwasanaethau cymdeithasol. Efallai y dylai eraill fod o dan ofal o'r fath, ond does gyda nhw'r cymhelliant neu'r gallu i ofyn am gymorth. Yn ogystal â helpu pobl ifanc i fod yn annibynnol, **mae gweithwyr ieuenctid yn eiriolwyr galluog**. Fe fyddan nhw'n gweithredu er budd unigolyn wrth ei helpu i feithrin medrau.

Gan eu bod yn ymwneud â'r rhai rhwng 11 a 25 oed, **gweithwyr ieuenctid fydd yr unig ran gyson ym mywyd rhywun ifanc** sy'n manteisio ar gymorth megis y gwasanaethau cwnsela annibynnol, timau troseddwyr ifanc a gwasanaethau iechyd y meddwl i blant a'r glasoed. Gall gweithwyr weithredu'n froceriaid gwasanaethau yn ogystal â bod yr unig ddolen gyswllt ar ôl i rywun ddefnyddio gwasanaethau o'r fath.

Mae gan y gwasanaethau ieuenctid hanes da o gydweithio â sefydliadau eraill ac fe fydd yn hanfodol i hynny barhau, yn arbennig mewn trefniadau lleol, er lles yr ifainc ac er mwyn osgoi dyblygu (mae nifer o weithwyr ieuenctid yn ymwneud â'r ysgolion, staff gofal iechyd sylfaenol, timau troseddwyr ifanc ac ati). Byddai cysylltiadau agos rhwng gwasanaethau ieuenctid a'r timau ar gyfer troseddwyr ifanc yn helpu i bennu pa wasanaethau fyddai'n gweddu i bobl ifanc gan arwain at raglenni cyfannol a allai gael eu cynnal ar y cyd gyda chymorth gweithwyr ieuenctid.

**Rôl gweithwyr ieuenctid ynglŷn â llesiant teimladol pobl ifanc**

Mae *Gyda'n Gilydd er Iechyd y Meddwl: Strategaeth Iechyd a Llesiant y Meddwl yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* a *Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014* yn cynnig fframwaith cydweithio a chyfleoedd i helpu gwasanaethau ataliol i gyfrannu rhagor. Mae Cylch Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru wedi mapio cyfraniad gwaith ieuenctid o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae llawer ohono'n berthnasol i well llesiant teimladol:

| Nod | Enghreifftiau o'r cyfraniad |
|---|---|
| Cymru ffyniannus | ➢ Gall pobl ifanc feithrin medrau arwain neu gynorthwyo trwy gynlluniau arweinwyr ifanc ac addysg i gyfoedion.<br>➢ Mae ffora a chynghorau'r ifainc yn rhoi cyfle i bobl ifanc fynegi eu barn ac ennill cydnabyddiaeth.<br>➢ Datblygu medrau ehangach ar gyfer swyddi – megis cyfathrebu, cydweithio, trin a thrafod pobl ac arwain.<br>➢ Annog pobl ifanc i ysgwyddo rôl yn eu milltir sgwâr.<br>➢ Cynnig cyfleoedd i bawb gymryd rhan, beth bynnag fo ei gefndir.<br>➢ Ehangu gorwelion a chodi dyheadau trwy gynnig profiadau newydd ac ymestynnol.<br>➢ Meithrin medrau sy'n helpu pobl i ddod o hyd i swyddi.<br>➢ Gwaith ieuenctid yn yr ysgol – hyrwyddo'r syniad o ymgysylltu â'r ifainc.<br>➢ Cydblethu â gwaith Rhaglen 'Cymunedau'n Gyntaf'. |
| Cymru gadarn | ➢ Meithrin hunan-barch a mynd i'r afael â bwlio.<br>➢ Gweithgareddau meithrin hyder pobl ifanc.<br>➢ Cymorth penodol i'r rhai mwyaf bregus yn yr ysgol. |
| Cymru iachach | ➢ Rhaglenni bwyta'n iach.<br>➢ Addysg hyblyg ynglŷn â rhyw a pherthynas.<br>➢ Cynllun atal cenhedlu.<br>➢ Rhaglenni osgoi camddefnyddio cyffuriau.<br>➢ Gwybodaeth a chynghorion cyfoes o'r radd flaenaf. |
| Cymru gyfartal | ➢ Hybu cydraddoldeb/amrywioldeb a mynd i'r afael ag erlid – un o brif orchwylion gwaith ieuenctid.<br>➢ Pontio cenedlaethau.<br>➢ Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â hoywon, lesbiaid a deurywiaid.<br>➢ Ymwybyddiaeth ynglŷn ag anableddau.<br>➢ Mynd i'r afael ag eithafiaeth a throseddau atgasedd.<br>➢ Arferion yn erbyn anffafrio.<br>➢ Meithrin hunan-barch a chadernid.<br>➢ Datblygu cynhwysiant cymdeithasol.<br>➢ Cydbwysedd rhwng darpariaeth agored a phenodol.<br>➢ Cynnig cyfleoedd i bobl ifanc cymunedau 'anodd eu cyrraedd' megis rhai crwydrol a'r rhai sy'n cael eu haddysgu gartref. |

| | |
|---|---|
| Cymru ac ynddi gymunedau cydlynol | ➢ Dysgu medrau cymdeithasol sy'n hanfodol i gynnal cymunedau.<br>➢ Dysgu am helpu pobl eraill a diwallu eu hanghenion.<br>➢ Cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol.<br>➢ Prosiectau gwella'r amgylchedd.<br>➢ Gwobr Dug Caeredin, dinasyddiaeth, gwirfoddoli. |
| Cymru ac ynddi ddiwylliant ac iaith ffyniannus | ➢ Eisteddfodau, gweithdai'r theatr, cyfnewid i'r ifainc.<br>➢ Gweithgareddau Cymraeg, llunio llenyddiaeth Gymraeg.<br>➢ Gwaith ieuenctid, hyfforddiant a chyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Cymru sy'n ymateb i faterion byd-eang | ➢ Rhaglenni cyfnewid i'r ifainc.<br>➢ Prosiectau dinasyddiaeth fyd-eang.<br>➢ Rhaglenni diwylliannol ac ymwybyddiaeth o hunaniaeth.<br>➢ Rhaglenni amgylcheddol.<br>➢ Cydweithio â sefydliadau megis mentrau iaith. |

Mae gwasanaethau ieuenctid yn helpu i ddatblygu gallu ac adnoddau'r sector trwy **roi cymorth a llawer o hyfforddiant** i unigolion mewn pynciau megis:

- Cysylltiadau iach
- Addysg am ryw
- Iechyd dynion
- Hawliau plant
- Iechyd merched
- Hunan-barch
- Corff delfrydol
- Bwyta'n iach
- Bwlio
- Straen o achos arholiadau
- Rheoli dicter
- Rhywioldeb a phynciau perthnasol
- Ffordd iach o fyw
- Ymwybyddiaeth ynglŷn ag ysmygu
- Ymwybyddiaeth ynglŷn ag alcohol a chyffuriau
- Rhianta
- Straen ac ymlacio
- Rheoli arian
- Cyflogadwyedd
- Rheoli'r meddwl
- Diogelwch ar y we
- Pendantrwydd
- Ymwybyddiaeth o ragfarn ac anffafrio

Trwy ddulliau asesu a yw pobl ifanc yn agored i niwed, a ddefnyddir yn lleol yn rhan o Fframweithiau Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, mae modd nodi mwy a mwy o'r rhai sy'n dioddef â phroblemau iechyd y meddwl heb gael diagnosis a heb gyd-fynd â meini prawf gwasanaethau iechyd y meddwl i blant a'r glasoed. Mae sesiynau galw heibio ar gael i bobl ifanc o'r fath hefyd, fel y gallan nhw fanteisio ar amrywiaeth o gymorth trwy nifer o asiantaethau yn yr un lle, yn ôl eu hanghenion. Mae'r hyn sydd ar gael i bawb megis gwaith ieuenctid ar y strydoedd ac mewn canolfannau yn hynod o werthfawr ynglŷn ag adnabod y rhai sydd wedi cefnu ar addysg ffurfiol. Fe fydd llawer ohonyn nhw'n ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid y tu allan i sefydliad addysg, a gall hynny helpu i bwyso a mesur pwy sy'n agored i niwed yn ôl y fframweithiau sydd wedi'u crybwyll uchod.

Er y bydd trefniadau'n amrywio ymhlith yr awdurdodau lleol a'r rhanbarthau, yn ôl anghenion perthnasol, mae gan weithwyr ieuenctid hanes da o gydweithio â'i gilydd ac arbenigwyr iechyd. Maen nhw'n gweithio yn yr un adeiladau mewn rhai bröydd. Mae gwasanaethau ieuenctid ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi llunio pecyn cymorth ar y cyd â staff iechyd cyhoeddus y bwrdd. Y diben yw 'cynnig canllawiau ymarferol o ran sefydlu a chynnal gweithdai iechyd i'r rhai rhwng 11 a 25 oed mewn awyrgylch anffurfiol'. Mae'n rhoi canllawiau eglur am sut mae defnyddio gweithdai ar gyfer grwpiau ac unigolion fel ei gilydd. Mae'r rhan am lesiant teimladol yn nodi pum ffordd – *cysylltu* (â'r bobl sydd o'ch cwmpas), *bod yn weithgar*, *cymryd sylw* (bod yn chwilfrydig), *parhau i ddysgu* a *rhoi*.

Mae gan wasanaethau ieuenctid gysylltiadau cryf â nyrsys yn yr ysgol hefyd, gan roi gwybodaeth am ddulliau atal cenhedlu. Mae nyrsys ysgol yn cynnig sesiynau galw heibio mewn canolfannau ieuenctid lleol, hefyd.

**Effaith gwaith ieuenctid**

Dros y blynyddoedd, mae wedi bod yn anodd nodi tystiolaeth am arwyddocâd gallu cymdeithasol a theimladol gan nad oes cydsyniad ynglŷn â'r iaith a'r diffiniadau. Fe all hynny arwain at duedd i ganolbwyntio ar agweddau llawer haws eu mesur megis cymwysterau ac achrediad er na fydd y rheiny'n cymryd iechyd, lles a rhinweddau personol/cymdeithasol eraill i ystyriaeth. Mae rhai ffyrdd effeithiol o fesur lles pobl ifanc, fodd bynnag, a defnyddir nifer o'r rheiny pan ddechreua pobl ifanc ymgysylltu â gwaith ieuenctid ac yn ystod adolygiadau cyfnodol wedyn.